# PR and Communication Awards 2013

## PR, Communication and Marketing excellence in the Welsh social housing sector




The second PR and Communication Awards Ceremony was held during CHC's Communications Conference in Llandrindod Wells on 4 December 2013. 25 different organisations entered the awards with over a hundred entries overall, and there was fierce competition in all 17 categories. Members of the PR Network judged each other's entries and again found this to be a great experience and learning curve. Peer-to-peer judging is an effective way of sharing good practice and learning from the ideas and challenges of other teams in the sector.

**And the winners were...**

### BEST PHOTOGRAPH OF THE YEAR

**Winner: Newydd Housing Association**



'The winning image portrays the fun, bright and interactive side of social housing and the use of staff and children from the community really emphasises the joint working and close relationship between landlord and tenant.'

### ANNUAL REPORT

**Winner: Melin Homes**



'We liked this interactive annual report and its innovative design and presentation. It was easy and interesting to follow with minimum text and lots of graphics.'

### SUCCESSFUL PARTNERSHIP

**Winner: United Welsh**

**Partnership working with Smart Money Cymru Credit Union**



'The judges agreed that United Welsh and Smart Money Cymru Credit Union had invested in partnership working to deliver a very effective image for the union. Both the credit union and the housing organisation had brought their skills and expertise to the partnership and the impact of the re-brand was clearly defined in the rate of new member applications and loans.'

### INTERNAL COMMUNICATION

**Winner: Cartrefi Cymunedol Gwynedd**



'The judges felt that the winners demonstrated a well thought-out and clearly defined marketing campaign. The strategy involved a good use of the marketing mix and a high degree of creativity to engage with staff.'

**Second place: Coastal Housing Group**

## BEST EVENT

**Winner: Tai Calon Community Housing**
**Tenant Fun Day**



'We chose these winners as a result of their excellent outcomes at their fun day, using creative ways for tenants to get involved and getting a lot of interest in a number of tenant involvement opportunities. We were impressed with the way they recognised the difficulties in raising awareness of important issues such as welfare reform and energy prices and how they used incentives to overcome this at their fun day.'

**Second place: Tai Ceredigion**

## COMMUNICATION WITH OLDER PEOPLE

**Winner: RCT Homes**
**Verse on the Street**



'We loved how innovative the winning entry was and that it included the school's involvement to make the video, so it was a great intergenerational effort.'

**Second place: Valleys to Coast**

## NEW MEDIA

**Winner: Melin Homes**
**'Melin in Monmouthshire' animations**



'The winning entry used an engaging and informative way to communicate outcomes to a specific audience, reflecting the achievements of the organisation in that community.'

## BEST TENANT MAGAZINE/NEWSLETTER

**Winner: Bron Afon Community Housing**



'The winning newsletter is a light read with a good balance of tenant focused news and interesting articles. It's well written with great use of eye catching imagery that captures the essence of the organisation, and it strikes the balance between corporate and friendly very well.'

**Second place: Bro Myrddin Housing Association**

## BEST WEBSITE

**Winner: Newydd Housing Association**



'The winning website is crisp, easy to read and informative, with a strong brand presence. They have extra points for the considered approach in scoping the redesign, including strong tenant involvement. We were impressed with the research, budget, clean layout of the website and professional look overall.'

www.newydd.co.uk

**Second place: Cynon Taf Community Housing Group**

## TENANT VOICE

**Winner: RCT Homes**

**Verse on the Street**



'The winning entry was an innovative way of breaking down those intergenerational barriers with an educational edge, and a multichannel approach which mixed the old with the new.'

**Second place: Mid Wales Housing**

## COMMUNICATION WITH YOUNG PEOPLE

**Winner: Valleys to Coast**

**'Freshvibez'**



'The winning entry showed great engagement with young people. It's an appropriate multichannel project with a well thought out unified branding approach for a traditionally hard to reach group.'

## EFFECTIVE USE OF WELSH LANGUAGE

**Winner: Cymdeithas Tai Clwyd**

**'Awel y Coleg' information leaflet**



'We felt that the tone and the vocabulary used effectively represented the Welsh language used in the community and it was very relevant to the building itself and to the surrounding community. We feel that the document is easy to read and the information is understandable and informative, whilst the Welsh is not complex.'

## BEST MARKETING OR INFORMATION CAMPAIGN

**Winner: RCT Homes**

**'Use your vote' campaign**



'The evidence suggests that the winning campaign has been very successful, with voting numbers increasing from a few dozen to 400. It can be extremely difficult to engage tenants in the politics side of the organisation, and so changing the way the information was presented has clearly produced results.'

**Second place: Valleys to Coast**

## BEST CONTENT

**Winner: NPT Homes**

**Tenant handbook**



'The winning entry will be a really useful reference for tenants going through the WHQS improvement programme. It's written in an informal way, is easy to understand and accessible. We like the way the various stages of the work are set out clearly and the space at the back to note appointment times so that all relevant information is kept together.'

**Second place: Coastal Housing Group**

## DESIGN

### Winner: Seren Group

**Loftus Garden Village**



'We loved the sheer verve and originality of the winning design concept and feel that it takes social housing development to a whole new and aspirational level. The judges would also like to recognise the enterprise and commitment of the team behind it and the effort they have put into to securing management buy-in to such an investment in design.'

### Joint runners up: Cadwyn Housing Association and Cartrefi Conwy

## CREATIVITY

### Winner: Mid Wales Housing

**Animated Annual Report**



'We know online annual reviews are all the rage at the moment, but we thought the winning entry was particularly good. We liked the quirky graphics and the way that the stats were displayed. The messages came across really strongly and to the point, and we liked the way they illustrated their ASB work and how they dealt with fly tipping. Having an online review rather than a paper version really brought their work to life and gave them the opportunity to promote innovative new schemes such as 'chips and chat'. Overall it was very professional.'

### Second place: Bron Afon Community Housing

## LOW BUDGET INITIATIVE

### Winner: Tai Calon Community Housing

**Using Facebook to raise awareness of the 'bedroom tax'**



'The winning initiative used readily available social media tools to promote messages around the 'bedroom tax' in order to reach tenants who ignored letters and other traditional methods of communication. The initiative cost absolutely nothing and gained huge results.'

## OVERALL COMMUNICATION TEAM OF THE YEAR

### Winner: Bron Afon Community Housing (judged by CHC)



'The communications team at Bron Afon Community Housing has had its fair share of challenges this year and a massive amount of media interest. They took part in the direct payment demonstration project which brought communication and media challenges, both positive and negative. This team is always willing to share, and always makes a big effort to look for relevant case studies when asked. The team has a huge range of expertise from journalism to social media to video editing, and they achieve a huge amount of work for a team of three. Their ideas are always innovative and they're always on the ball and thinking about the next challenge.'

**Congratulations to all the winners, and to everyone who submitted an entry. People are already gearing up for next year's awards!**

**Bethan Samuel**
Communications Officer

Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru
Community Housing Cymru Group

# Gwobrau Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu 2013

## Rhagoriaeth Cysylltiadau Cyhoeddus, Cyfathrebu a Marchnata yn y sector tai cymdeithasol yng Nghymru

Cynhaliwyd yr ail Seremoni Wobrwyo Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu yn ystod Cynhadledd Cyfathrebu CHC yn Llandrindod ar 4 Rhagfyr 2013. Bu 25 o wahanol sefydliadau yn cymryd rhan yn y gwobrau gyda chyfanswm o dros gant o gynigion, ac roedd y gystadleuaeth yn ffyrnig ym mhob un o'r 17 categori. Bu aelodau'r Rhwydwaith Cysylltiadau Cyhoeddus yn feirniaid ar eu cynigion ei gilydd ac unwaith eto cawsant hyn yn brofiad gwych ac yn ffordd ragorol o ddysgu. Mae beirniadu cymheiriad-i-gymheiriad yn ffordd effeithiol o rannu arfer da a dysgu o'r syniadau a heriau timau eraill yn y sector.

**A'r enillwyr yw...**

## FFOTOGRAFF GORAU'R FLWYDDYN

**Buddugol: Cymdeithas Tai Newydd**



'Mae'r ddelwedd fuddugol yn portreadu ochr hwyliog, sionc a rhyngweithiol tai cymdeithasol ac mae defnyddio staff a phlant yn gwirioneddol danlinellu'r cydweithio a'r berthynas agos rhwng landlord a thenant.'

## ADRODDIAD BLYNYDDOL

**Buddugol: Cartrefi Melin**



'Roeddem yn hoffi'r adroddiad blynyddol rhyngweithiol yma a'i ddyluniad a chyflwyniad blaengar. Roedd yn rhwydd a diddorol ei ddilyn heb ormod o eiriau a digonedd o ddeunyddiau graffig.'

## PARTNERIAETH LWYDDIANNUS

**Buddugol: United Welsh**

**Gweithio mewn partneriaeth gydag Undeb Credyd Smart Money**



'Cytunodd y beirniaid fod United Welsh ac Undeb Credyd Smart Money wedi buddsoddi mewn gweithio partneriaeth i sicrhau delwedd effeithiol iawn i'r undeb credyd. Mae'r undeb credyd a'r sefydliad tai wedi dod â'u sgiliau a'u harbenigedd i'r bartneriaeth ac roedd effaith yr ail-frandio wedi'i ddiffinio'n glir yn y gyfradd o geisiadau a benthyciadau aelodau newydd.'

## CYFATHREBU MEWNOL

**Buddugol: Cartrefi Cymunedol Gwynedd**



'Teimlai'r beirniaid fod yr enillwyr yn dangos ymgyrch marchnata oedd wedi ei hystyried yn dda a'i diffinio'n glir. Roedd y strategaeth yn cynnwys defnydd da o'r cyfuniad marchnata a llawer o greadigrwydd i gysylltu gyda staff.'

**Ail le: Grŵp Tai Coastal**

## DIGWYDDIAD GORAU

**Buddugol: Cartrefi Cymunedol Tai Calon**

**Diwrnod Hwyl Tenantiaid**



'Fe wnaethom ddewis yr enillwyr hyn oherwydd eu canlyniadau ardderchog yn eu diwrnod hwyl, gan ddefnyddio ffyrdd creadigol i denantiaid gymryd rhan ac ennyn llawer o ddiddordeb mewn nifer o gyfleoedd ymgyfraniad tenantiaid. Fe wnaeth y ffordd y gwnaethant gydnabod yr anawsterau wrth godi ymwybyddiaeth o faterion pwysig fel diwygio lles a phrisiau ynni a sut y defnyddiwyd cymhellion i oresgyn hyn yn eu diwrnod hwyl argraff arnom.'

**Ail le: Tai Ceredigion**

## CYFATHREBU GYDA PHOBL HŶN

**Buddugol: Cartrefi RCT**

**Penillion Stryd**



'Roeddem wrth ein bodd gyda pha mor flaengar oedd y cais buddugol a bod ysgol wedi cymryd rhan wrth wneud y fideo, felly roedd yn ymdrech wych yn pontio cenedlaethau'.

**Ail le: Cymoedd i Arfordir**

## CYFRYNGAU NEWYDD

**Buddugol: Cartrefi Melin**

**Animeiddiad 'Melin yn Sir Fynwy'**



'Mae'r cais buddugol yn defnyddio ffordd ddiddorol i gyfathrebu canlyniadau a gwybodaeth i gynulleidfa benodol, gan adlewyrchu ar yr hyn a gyflawnodd y sefydliad yn y gymuned honno.'

## CYLCHGRAWN/CYLCHLYTHYR GORAU I DENANTIAID

**Buddugol: Cartrefi Cymunedol Bron Afon**



'Mae'r cylchlythyr buddugol yn ysgafn i'w ddarllen gyda chydbwysedd da o newyddion gyda ffocws ar denantiaid ac erthyglau diddorol. Caiff ei ysgrifennu'n dda ac mae'n gwneud defnydd gwych o ddelweddau deniadol sy'n cyfleu hanfod y sefydliad, ac sy'n taro'r fantol rhwng y corfforaethol a'r cyfeillgar yn dda iawn.'

**Ail le: Cymdeithas Tai Bro Myrddin**

## GWEFAN ORAU

**Buddugol: Cymdeithas Tai Newydd**



'Mae'r wefan fuddugol yn ffres, rhwydd ei darllen ac yn llawn gwybodaeth, gyda phresenoldeb brand cryf. Cawsant bwyntiau ychwanegol am y ffordd yr aethant ati i'w ailgynllunio, yn cynnwys ymgyfraniad cryf gan denantiaid. Fe wnaeth yr ymchwil, cyllideb, dyluniad glân y wefan a golwg broffesiynol y cyfan argraff arnom.'

www.newydd.co.uk

**Ail le: Grŵp Cartrefi Cymunedol Cynon Taf**

## LLAIS TENANTIAID

**Buddugol: Cartrefi RCT**
**Penillion ar y Stryd**



'Roedd y cynnig buddugol yn ffordd flaengar o gael gwared â rhwystrau rhwng y cenedlaethau gyda naws addysgol, gyda dull aml-sianel yn cyfuno'r hen a'r newydd.'

**Ail le: Tai Canolbarth Cymru**

## CYFATHREBU GYDA PHOBL IFANC

**Buddugol: Cymoedd i Arfordir**
**'Freshvibez'**



'Mae'r cais buddugol yn wych wrth ennyn diddordeb pobl ifanc. Mae'n brosiect aml-sianel addas gyda dull brandio wedi'i ystyried yn dda ar gyfer grŵp sy'n draddodiadol yn un anodd ei gyrraedd.'

## DEFNYDD EFFEITHIOL O'R GYMRAEG

**Buddugol: Cymdeithas Tai Clwyd**
**Taflen wybodaeth 'Awel y Coleg'**



'Teimlem fod y cywair a'r eirfa yn effeithiol wrth gynrychioli'r Gymraeg fel y'i defnyddir yn y gymuned ac roedd yn berthnasol iawn i'r adeilad ei hun a'r gymuned o amgylch. Teimlwn fod y ddogfen yn rhwydd ei darllen a'r wybodaeth yn ddealladwy a defnyddiol, a'r iaith yn rhwydd.'

## YMGYRCH FARCHNATA NEU WYBODAETH ORAU

**Buddugol: Cartrefi RCT**
**Ymgyrch 'Defnyddiwch eich pleidlais'**



'Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y bu'r ymgyrch fuddugol yn llwyddiannus iawn, gyda'r nifer a bleidleisiodd wedi cynyddu o ychydig ddwsinau i 400. Gall fod yn anodd iawn ennyn diddordeb tenantiaid yn ochr wleidyddol y sefydliad, ac felly mae'n newid y ffordd y cyflwynwyd gwybodaeth yn amlwg wedi dangos canlyniadau.'

**Ail le: Cymoedd i Arfordir**

## CYNNWYS GORAU

**Buddugol: Cartrefi NPT**
**Llawlyfr Tenantiaid**



'Bydd y cynnig buddugol yn gyfeirlyfr gwirioneddol ddefnyddiol i denantiaid yn mynd drwy raglen wella Safon Ansawdd Tai Cymru. Fe'i hysgrifennwyd mewn dull anffurfiol ac mae'n rhwydd ei ddeall. Hoffwn y ffordd y caiff gwahanol gamau'r gwaith eu nodi'n glir a'r gofod ar y cefn i nodi amserau apwyntiadau fel y cedwir yr holl wybodaeth berthnasol gyda'i gilydd.'

**Ail le: Grŵp Tai Coastal**

## DYLUNIO

### Buddugol: Grŵp Seren

**Pentref Gardd Loftus**



'Roeddem wrth ein bodd gydag egni a gwreiddioldeb y cysyniad dylunio gwreiddiol ac yn teimlo ei fod yn mynd â datblygu tai cymdeithasol i lefel uwch ac uchelgais newydd. Hoffai'r beirniaid gydnabod menter ac ymrwymiad y tîm sy'n gyfrifol amdano a'r ymdrech y maent wedi ei rhoi i sicrhau cefnogaeth rheolaeth mewn cymaint o fuddsoddiad mewn dylunio.'

### Cydradd ail: Cymdeithas Tai Cadwyn a Cartrefi Conwy

## CREADIGRWYDD

### Buddugol: Tai Canolbarth Cymru

**Adroddiad Blynyddol wedi'i Animeiddio**



'Gwyddom mai adolygiadau blynyddol ar-lein yw'r ffasiwn ar hyn o bryd, ond credem fod y cais buddugol yn neilltuol o dda. Roeddem yn hoffi'r graffeg gwreiddiol a'r ffordd y dangoswyd yr ystadegau. Cafodd y negeseuon eu cyfleu'n wirioneddol gryf ac i'r pwynt, ac roeddem yn hoffi'r ffordd y darluniwyd eu gwaith ar ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r ffordd y maent yn delio gyda thipio anghyfreithlon. Mae adolygiad ar-lein yn hytrach na fersiwn bapur wirioneddol wedi dod â'u gwaith yn fyw a rhoi cyfle iddynt hyrwyddo cynlluniau newydd blaengar megis 'sglodion a sgwrs'. Roedd yn broffesiynol iawn drwyddi draw.'

### Ail le: Cartrefi Cymunedol Bron Afon

## CYNLLUN CYLLIDEB ISEL

### Buddugol: Cartrefi Cymunedol Tai Calon

**Defnyddio Facebook i godi ymwybyddiaeth o'r 'dreth ystafelloedd gwely'**



'Mae'r cynnig buddugol yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol cyfarwydd i hyrwyddo negeseuon am y 'dreth ystafelloedd gwely' er mwyn cyrraedd tenantiaid sy'n anwybyddu llythyrau a dulliau traddodiadol eraill o gyfathrebu. Ni chostiodd y cynllun ddim o gwbl a chafodd ganlyniadau enfawr.'

## PRIF WOBR TÎM CYFATHREBU'R FLWYDDYN

### Buddugol: Cartrefi Cymunedol Bron Afon (beirniaid: CHC)



'Cafodd tîm cyfathrebu Cartrefi Cymunedol Bron Afon gryn nifer o heriau eleni a llawer iawn o ddiddordeb yn y cyfryngau. Fe wnaethant gymryd rhan yn y prosiect arddangos talu uniongyrchol â ddaeth â heriau cyfathrebu a chyfryngau, yn gadarnhaol a negyddol. Mae'r tîm bob amser yn fodlon rhannu, a bob amser yn gwneud ymdrech fawr i edrych am astudiaethau achos perthnasol pan ofynnir iddynt. Mae gan y tîm ystod enfawr o arbenigedd o newyddiaduraeth i gyfryngau cymdeithasol i olygu fideo, ac maent yn cyflawni llawer iawn o waith gyda thîm o dri. Mae'r syniadau bob amser yn flaengar ac maent bob amser yn effro ac yn meddwl am yr her nesaf.'

**Llongyfarchiadau i'r holl enillwyr, ac i bawb a gyflwynodd gynnig. Mae pobl eisoes yn paratoi ar gyfer gwobrau'r flwyddyn nesaf!**

**Bethan Samuel**
Swyddog Cyfathrebu

Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru
Community Housing Cymru Group